Cardiff Replacement Local Development Plan (RLDP)

Gypsy and Travellers

## Introduction

1. This note sets out our findings regarding the approach to the provision of accommodation to meet the needs of Gypsies and Travellers in the RDLP. For the reasons that follow, we do not consider the RDLP as drafted is sound and additional provision must be identified.

## Need

2. The Housing (Wales) Act 2014 places a legal duty upon local authorities to ensure the accommodation needs of Gypsies and Travellers are met. Where a Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA) identifies unmet need, Planning Policy Wales (PPW) requires local authorities to meet the need for residential and transit use (4.2.36).
3. The 2024 GTAA identifies a need for 117 permanent pitches overall, 73 to meet immediate need up to 2026 and 10 transit pitches. Since the GTAA was published, planning permission has been granted for 4 pitches at Shirenewton, reducing the need to 113 pitches (69 immediate need).
4. Policy H11 states provision at Pengam Green site would be temporary to enable work to progress on firming up proposals to improve and extend the existing Rover Way Gypsy and Traveller site to meet the need for new pitches identified in the GTAA. This work will also investigate options for improving and realigning Rover Way and the wider master planning of the Pengam Green area. At the Hearing there was some question as to whether the allocation may be permanent, Action Point HS4.2 requires the Council to confirm the position.
5. According to Designing Gypsy and Traveller Sites, sites must be able to be occupied as Gypsy and Traveller sites for at least 21 years to be eligible for Sites

Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Caerdydd

Sipsiwn a Theithwyr

## Cyflwyniad

1. Mae'r nodyn hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau ynghylch y dull o ddarparu llety i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLIN. Am y rhesymau sy'n dilyn, nid ydym yn ystyried bod y CDLIN fel y'i drafftiwyd yn gadarn ac mae'n rhaid nodi darpariaeth ychwanegol.

## Angen

2. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu ddiwallu. Pan fo Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) yn nodi angen heb ei ddiwallu, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiwallu'r angen am ddefnydd preswyl a thrafnidiaeth (4.2.36).
3. Mae ALISTh 2024 yn clustnodi'r angen am gyfanswm o 117 o leiniau parhaol, 73 i ddiwallu anghenion uniongyrchol hyd at 2026 a 10 llain dramwy. Ers cyhoeddi'r ALISTh, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 4 llain yn Shirenewton, gan leihau'r angen i 113 o leiniau (69 ar gyfer angen uniongyrchol).
4. Mae Polisi H11 yn nodi y byddai darpariaeth yn Lawnt Pengam yn un dros dro i alluogi gwaith i symud ymlaen ar gadarnhau cynigion i wella ac ymestyn safle presennol Sipsiwn a Theithwyr Ffordd Rover i ddiwallu'r angen am leiniau newydd a nodwyd yn yr ALISTh. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwella ac ail-alinio Ffordd Rover ac uwch gynllunio ehangach i ardal Lawnt Pengam. Yn y Gwrandawiad roedd rhywfaint o gwestiwn ynghylch a allai'r dyraniad fod yn barhaol, mae Pwynt Gweithredu HS4.2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadarnhau'r sefyllfa.

Capital Grant funding. Action Point HS4.4 requires the Council to confirm delivery of Pengam Green is funded.

6. There is nothing in the Housing (Wales) Act 2014, Circular 005/2018, Planning for Gypsy, Traveller and Showpeople Sites or PPW to say it is acceptable to meet a permanent need with temporary accommodation. If the accommodation at Pengam Green is temporary we require;
   i. assurance the proposed development is funded,
   ii. assurance temporary provision would not conflict with the Housing (Wales) Act 2014 and the Equality Act 2025,
   iii. a clear and deliverable strategy for permanent provision, and
   iv. evidence of consultation and engagement with the Gypsy and Traveller community on the strategy for permanent provision including the use of temporary accommodation.

Permanent Provision

7. The RDLP through Policy H11 allocates a site for 80 pitches at Pengam Green. Whether that be permanent or temporary, we heard at the Hearing, occupiers of Rover Way (21 pitches) would be relocated to Pengam Green to facilitate the proposed improvements to Rover Way and regeneration of the area. We have significant reservations regarding the suitability of the Pengam Green site for residential occupation. Putting that aside for now, with the relocation of the occupiers of Rover Way, Pengam Green would provide 59 new pitches. This leaves a shortfall of 10 pitches with respect to immediate need and 54 pitches overall.
8. Policy H7 of the adopted LDP allows for ‘windfall’ provision of sites and is identical to Policy H10 of the RDLP. Through Policy H7, only the 4 pitches at Shirenewton have come forward in the 10 years since the adoption of the current LDP. We have no confidence the shortfall in immediate and overall need (54, 10) will be met through windfall provision. Nor, given the poor track record of delivery through Policy H7, do we consider it appropriate to set a trigger for an early plan review.

5. Yn ôl Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, rhaid i safleoedd allu cael eu meddiannu fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr am o leiaf 21 mlynedd i fod yn gymwys i gael cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd. Mae Pwynt Gweithredu HS4.4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadarnhau bod cyflawni Lawnt Pengam yn cael ei ariannu.
6. Nid oes unrhyw beth yn Neddf Tai (Cymru) 2014, Cylchlythyr 005/2018, Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe neu PCC i ddweud ei bod yn dderbyniol diwallu angen parhaol gyda llety dros dro. Os yw'r llety yn Lawnt Pengam yn un dros dro mae angen arnom:
   i. sicrwydd bod y datblygiad arfaethedig yn cael ei ariannu,
   ii. sicrwydd na fyddai darpariaeth dros dro yn gwrthdaro â Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cydraddoldeb 2025,
   iii. strategaeth glir a chyflawnadwy ar gyfer darpariaeth barhaol, a
   iv. thystiolaeth o ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar y strategaeth ar gyfer darpariaeth barhaol gan gynnwys defnyddio llety dros dro.

Darpariaeth Barhaol

7. Mae'r CDLIN drwy Bolisi H11 yn dyrannu safle ar gyfer 80 o leiniau yn Lawnt Pengam. P'un a yw hynny'n barhaol neu dros dro, clywsom yn y Gwrandawiad, byddai meddianwyr Ffordd Rover (21 llain) yn cael eu hadleoli i Lawnt Pengam i hwyluso'r gwelliannau arfaethedig i Ffordd Rover ac adfywio'r ardal. Mae gennym amheuon sylweddol ynglŷn ag addasrwydd safle Lawnt Pengam ar gyfer meddiannaeth breswyl. Gan roi hynny o'r neilltu am y tro, gydag adleoli meddianwyr Ffordd Rover, byddai Lawnt Pengam yn darparu 59 o leiniau newydd. Mae hyn yn gadael diffyg o 10 llain mewn perthynas ag angen uniongyrchol a 54 llain yn gyffredinol.
8. Mae Polisi H7 o'r CDLl mabwysiedig yn caniatáu darparu ‘hap-safleoedd’ ac mae'n union yr un fath â Pholisi H10 o'r CDLlN. Trwy Bolisi H7, dim ond y 4 llain yn Shirenewton sydd wedi dod ymlaen yn y 10 mlynedd ers mabwysiadu'r CDLl

9. To be sound, the RDLP needs to make provision to address the shortfall by making allocations to provide 54 pitches. Ideally this should include a site capable of being delivered quickly to meet the shortfall in immediate need of 10 pitches that will not be met at Pengam Green.

Transit Provision

10. We acknowledge the Council has been part of a regional forum with the aim of providing transit pitches. Nevertheless, it would appear nothing has been done in the last 2 years. That is not the Council's fault as they were advised by Welsh Government to await a report commissioned on transit provision across Wales. That report is yet to be published but we heard it is unlikely to attribute numbers to any particular area.
11. There seems, therefore, little prospect of a regional approach being agreed any time soon. There would then need to be agreement on which Council would accommodate need identified at a regional level, a site identified, possibly procured, funding secured and planning permission granted. But the GTAA identifies need for 10 transit pitches in Cardiff now.
12. To be sound, the RDLP needs to make provision for 10 transit pitches.

Pengam Green

13. We remain unpersuaded the principle of development is acceptable and the site suitable for residential occupation. In identifying sites, Circular 5/2018, Planning for Gypsy, Traveller and Showpeople Sites sets out a number of considerations. These include, amongst other things, satisfactory living conditions and regard for areas of international, national and local importance for biodiversity.

*Biodiversity*

14. PPW recognises SINCs make a vital contribution to delivering an ecological network for biodiversity and resilient ecosystems and should be given protection in development plans (6.4.31). PPW Figure 13 indicates development proposed in SINCs must be subject to the step-wise approach. The first step is to

presennol. Nid oes gennym unrhyw hyder y bydd y diffyg mewn angen uniongyrchol a chyffredin (54, 10) yn cael ei ddiwallu trwy ddarpariaeth hap-safleoedd. Nac ychwaith, o ystyried yr hanes gwael o ddarparu drwy Bolisi 7, ydym yn ystyried ei bod yn briodol gosod sbardun ar gyfer adolygiad cynllun cynnar.

9. I fod yn gadarn, mae angen i'r CDLIN wneud darpariaeth i fynd i'r afael â'r diffyg trwy wneud dyraniadau i ddarparu 54 o leiniau. Yn ddelfrydol, dylai hyn gynnwys safle y gellir ei ddarparu'n gyflym i gwrdd â'r diffyg sydd angen ar unwaith o 10 llain na fydd yn cael eu diwallu yn Lawnt Pengam.

Darpariaeth Dramwy

10. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi bod yn rhan o fforwm rhanbarthol gyda'r nod o ddarparu lleiniau tramwy. Serch hynny, mae'n ymddangos nad oes unrhyw beth wedi'i wneud yn y 2 flynedd ddiwethaf. Nid bai'r Cyngor yw hynny gan eu bod wedi cael eu cynghori gan Lywodraeth Cymru i aros am adroddiad a gomisiynwyd ar ddarpariaeth dramwy ledled Cymru. Nid yw'r adroddiad hwnnw wedi'i gyhoeddi eto ond clywsom ei fod yn annhebygol o briodoli rhifau i unrhyw ardal benodol.
11. Ymddengys, felly, fod ddim fawr o obaith o ddull rhanbarthol yn cael ei gytuno unrhyw bryd yn fuan. Yna byddai angen cytundeb ar ba Gyngor fyddai'n darparu ar gyfer yr angen a nodwyd ar lefel ranbarthol, safle wedi'i nodi, o bosibl yn cael ei gaffael, cyllid wedi'i sicrhau a chaniatâd cynllunio wedi'i roi. Ond mae'r ALISTh yn nodi bod angen 10 llain dramwy yng Nghaerdydd nawr.
12. I fod yn gadarn, mae angen i'r CDLIN wneud darpariaeth ar gyfer 10 llain dramwy.

Lawnt Pengam

13. Rydym yn parhau i fod heb ein hargyhoeddi bod yr egwyddor o ddatblygiad yn dderbyniol a'r safle yn addas ar gyfer meddiannaeth breswyl. Wrth glustnodi safleoedd mae Cylchlythyr 5/2018, Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe yn nodi nifer o ystyriaethau. Mae'r rhain yn

avoid damage to biodiversity and, where harm may occur, decision makers will need to be satisfied reasonable alternative sites resulting in less harm, no harm or benefit have been considered.

15. The site is wholly within the Pengam Moor Site of Importance for Nature Conservation (SINC). The Council's selection process included only land in its own or public ownership. We heard the overriding need in Cardiff is for socially provided accommodation. This would be provided by the Council and we acknowledge focusing on land already in the Council's ownership removes an obstacle to delivery. Nonetheless, it has not been demonstrated there are no alternative sites which would cause no, or less harm to biodiversity, contrary to the step-wise approach.
16. The site lies within the core recreational catchment of the Severn Estuary Special Area of Conservation (SAC), Special Protection Area (SPA) and Ramsar site. The Preliminary Ecological Appraisal for the site also highlights the proposed use would increase recreational pressure on Cardiff Beechwood SAC. RLDP Policy BG7 resists development which would result in an increase in visitor pressure. The Preliminary Ecological Appraisal for the site points to local provision, Tremorfa Park, other areas and the Wales coast path. However, it is not certain these would qualify as suitable alternative natural greenspace (SANG).
17. RLDP paragraph 7.395 indicates the best approach to mitigating recreation impacts is at a strategic level, likely through contributions to Strategic Access Management and Monitoring (SAMM) or SANG. As highlighted at the Hearing, the Council should consider the impact of recreational pressure and how that will be managed in relation to the SACs in terms of site design, timing of delivery and viability.

Living conditions

18. Welsh Government guidance, Designing Gypsy and Traveller Sites warns a location inappropriate for conventional housing is also inappropriate for Gypsies and Travellers. Further, a Gypsy and Traveller site should not be located in areas which

cynnwys, ymhlith pethau eraill, amodau byw boddhaol ac ystyried ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ar gyfer bioamrywiaeth.

*Bioamrywiaeth*

14. Mae PCC yn cydnabod bod SoBCNau yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddarparu rhwydwaith ecolegol i fioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn a dylid eu diogelu mewn cynlluniau datblygu (6.4.31). Mae PCC Ffigur 13 yn dangos bod yn rhaid i ddatblygiadau a gynigir mewn SoBCNau fod yn ddarostyngedig i'r dull fesul cam. Y cam cyntaf yw osgoi difrod i fioamrywiaeth a, lle gall niwed ddigwydd, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniadau fod yn fodlon bod safleoedd amgen rhesymol sy'n arwain at lai o niwed, dim niwed neu a fyddai o fudd wedi'u hystyried.
15. Mae'r safle yn gyfan gwbl o fewn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) Morfa Pengam. Roedd proses ddethol y Cyngor yn cynnwys dim ond tir yn ei berchnogaeth ei hun neu berchnogaeth gyhoeddus. Clywsom mai'r angen mawr yng Nghaerdydd yw am lety a ddarperir yn gymdeithasol. Byddai hyn yn cael ei ddarparu gan y Cyngor ac rydym yn cydnabod bod canolbwyntio ar dir sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor yn dileu rhwystr i gyflawni. Serch hynny, nid yw wedi cael ei ddangos nad oes unrhyw safleoedd amgen a fyddai'n achosi dim neu lai o niwed i fioamrywiaeth, yn groes i'r dull fesul cam.
16. Mae'r safle o fewn dalgylch hamdden craidd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Aber Afon Hafren, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar. Mae'r Arfarniad Ecolegol Cychwynnol ar gyfer y safle hefyd yn tynnu sylw at y byddai'r defnydd arfaethedig yn cynyddu'r pwysau hamdden ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd. Mae Polisi BG7 y CDLlN yn gwrthsefyll datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd mewn pwysau ymwelwyr. Mae'r Arfarniad Ecolegol Cychwynnol ar gyfer y safle yn tynnu sylw at ddarpariaeth leol, Parc Tremorfa, ardaloedd eraill a llwybr arfordir Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n sicr y byddai'r rhain yn gymwys fel mannau gwyrdd naturiol amgen addas (MGNAA).

will have a detrimental effect on the general health and well-being of residents (3.21).

19. The site is opposite a steelworks, close to other industrial and commercial uses and accessed off Seawall Road, heavily utilised by HGVs. Rover Way is also close to the steelworks and we heard the occupiers of Rover Way suffer from problems of noise and dust. A noise survey has yet to be undertaken on the site. It is not known, therefore, whether it is possible to mitigate the impact of noise on prospective residents or, if it is, the impact of any mitigation measures on their living conditions.
20. Acoustic fences and buffers were mentioned at the Hearing, in addition to living conditions, what impact would such measures have on the SINC, its habitat and any wintering bird population? What would be the remaining developable area on site?
21. Circular 5/2018, Planning for Gypsy, Traveller and Showpeople requires consideration to be given to access to health and education services and accessibility by modes other than the private car. Due to their nature, Seawall Road and Rover Way are not conducive to walking or cycling. The Council's own assessment of the site describes accessibility as challenging.
22. We acknowledge the Council's commitment to improve links but residents would either have to negotiate a busy arterial road (Rover Way) or pass through an industrial area to reach the site. This is not good placemaking.

Site size and design

23. Welsh Government guidance, Designing Gypsy and Traveller Sites states new sites should comprise 20 pitches or less, other than in exceptional circumstances and where consultation and engagement have taken place with all stakeholders. The Council and Welsh Government contend the high level of need constitutes exceptional circumstances. We have little sympathy with this argument as the need for 113 pitches is in no small part due to the Council's inaction since the adoption of the current LDP.

17. Mae paragraff 7.395 y CDLl yn nodi mai'r dull gorau o liniaru effeithiau hamdden yw ar lefel strategol, megis trwy gyfraniadau at Reoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS) neu Fannau Gwyrdd Naturiol Amgen Addas (MGNAA). Fel y tynnwyd sylw at y Gwrandawiad, dylai'r Cyngor ystyried effaith pwysau hamdden a sut y bydd hynny'n cael ei reoli mewn perthynas â'r ACA o ran dyluniad y safle, amseriad cyflwyno a hyfywedd.

Amodau Byw

18. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn rhybuddio bod lleoliad sy'n amhriodol ar gyfer tai confensiynol hefyd yn amhriodol ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr. Ymhellach, ni ddylid lleoli safle Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd a fydd yn cael effaith niweidiol ar iechyd a lles cyffredinol preswylwyr (3.21).
19. Mae'r safle gyferbyn â gwaith dur, yn agos at ddefnyddiau diwydiannol a masnachol eraill ac yn cael ei gyrraedd oddi ar Seawall Road, sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gerbydau nwyddau trwm. Mae Ffordd Rover hefyd yn agos at y gwaith dur a chlywsom feddianwyr Ffordd Rover yn dioddef o broblemau sŵn a llwch. Nid yw arolwg sŵn wedi'i gynnal ar y safle eto. Nid yw'n hysbys, felly, a yw'n bosibl lliniaru effaith sŵn ar ddarpar breswylwyr neu, os ydyw, effaith unrhyw fesurau lliniaru ar eu hamgylchiadau byw.
20. Soniwyd am ffensys acwstig a byfferau yn y Gwrandawiad, yn ogystal ag amodau byw, pa effaith fyddai mesurau o'r fath yn ei chael ar y SoBCN, ei gynefin ac unrhyw boblogaeth adar sy'n gaeafu? Beth fyddai'r ardal ddatblygu sy'n weddill ar y safle?
21. Mae Cylchlythyr 5/2018, Cynllunio ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe, yn ei gwneud yn ofynnol ystyried mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg a hygyrchedd drwy ddulliau heblaw'r car preifat. Oherwydd eu natur, nid yw Seawall Road na Ffordd Rover yn ffafriol i gerdded na beicio. Mae asesiad y Cyngor ei hun o'r safle yn disgrifio hygyrchedd fel heriol.
22. Rydym yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i wella cysylltiadau ond byddai'n rhaid i

| | |
|---|---|
| 24. Where larger sites are developed, possible impacts on community cohesion, access to services and environmental sustainability should be considered. The guidance also states ethnic, cultural or family groupings may also give rise to particular design considerations and where sites are to be shared by different communities a 'tree branch' design may be preferable to a 'circular' design. It also says a circular layout may be impractical for larger sites.<br>25. Design is a matter for the development management process but the concerns highlighted above are relevant to capacity and, therefore, the number of pitches the site will provide against the identified need. We have seen the proposed masterplan and are sceptical the site is capable of accommodating 80 pitches in a manner that ensures effective community cohesion and with necessary supporting facilities whilst providing decent living conditions and without significant harm to the SINC..<br><br>**Conclusion**<br><br>26. We do not consider the site selection process resulting in the allocation of Pengam Green was undertaken in accordance with the step wise approach. Nor, due to its location within a SINC, proximity to SACs and SPAs and close proximity to heavy industry, do we consider the site to be suitable for development and residential occupation. Indeed, the allocation appears to conflict with RDLP policies seeking to protect the environment and safeguard living conditions. Policies SP4(xii), PC1, H9(ii) (iii) and H10(i)(ii)(iii).<br>27. Nonetheless, the site has been procured by the Council and a planning application is being progressed. We heard planning permission could be granted by the end of 2026, rendering the suitability and soundness of the allocation in the RDLP moot.<br>28. Pengam Green is allocated for 80 pitches, 59 of which would be new. The shortfall of 54 pitches against identified need will increase if developable area is lost to mitigate harm to the SINC and create decent living conditions.<br>29. To be sound the RDLP must | drigolion naill ai drafod ffordd brifwythiennol brysur (Ffordd Rover) neu basio trwy ardal ddiwydiannol i gyrraedd y safle. Nid yw hyn yn creu lleoedd da.<br><br>Maint a dyluniad y safle<br><br>23. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn nodi y dylai safleoedd newydd gynnwys 20 o leiniau neu lai, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae ymgynghori ac ymgysylltu wedi ei gynnal â'r holl randdeiliaid. Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn dadlau bod lefel uchel o angen yn amgylchiadau eithriadol. Nid oes gennym fawr o gydymdeimlad â'r ddadl hon gan fod yr angen am 113 o leiniau yn rhan fawr o ganlyniad i ddiffyg gweithredu'r Cyngor ers mabwysiadu'r CDLl presennol.<br>24. Pan ddatblygir safleoedd mwy, dylid ystyried effeithiau posibl ar gydlyniant cymunedol, mynediad at wasanaethau a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gall grwpiau ethnig, diwylliannol neu deuluol hefyd arwain at ystyriaethau dylunio penodol a lle mae safleoedd i'w rhannu gan wahanol gymunedau efallai y bydd dyluniad 'cangen coeden' yn well na dyluniad 'cylchol'. Mae hefyd yn dweud y gallai cynllun cylchol fod yn anymarferol ar gyfer safleoedd mwy.<br>25. Mae dylunio yn fater ar gyfer y broses rheoli datblygu ond mae'r pryderon a amlygwyd uchod yn berthnasol i'r capasiti ac, felly, nifer y lleiniau y bydd y safle yn eu darparu yn erbyn yr angen a nodwyd. Rydym wedi gweld yr uwchgynllun arfaethedig ac rydym yn amheus bod y safle yn gallu darparu ar gyfer 80 o leiniau mewn modd sy'n sicrhau cydlyniant cymunedol effeithiol a chyda chyfleusterau ategol angenrheidiol wrth ddarparu amodau byw gweddus a heb niwed sylweddol i'r SoBCN..<br><br>**Casgliad**<br><br>26. Nid ydym yn ystyried bod y broses o ddewis safle a arweiniodd at ddyrannu Lawnt Pengam wedi'i chynnal yn unol â'r dull fesul cam. Nid ydym ychwaith o'r farn bod y safle yn addas ar gyfer datblygu a |

| | |
|---|---|
| • make additional provision for 54 permanent pitches,<br>• comply with the Housing and Equality Acts if if accommodation at Pengam Green is temporary,<br>• set out a clear and deliverable strategy for permanent provision if accommodation at Pengam Green is temporary,<br>• make provision for 10 transit pitches,<br>• Amend the monitoring indicator for Policy H11;<br>30. A response to these matters is requested by 30 September 2026. | meddiannaeth breswyl. Yn wir, mae'n ymddangos bod y dyraniad yn gwrthdaro â pholisïau CDLIN sy'n ceisio diogelu'r amgylchedd a diogelu amodau byw. Polisïau SP4(xii), PC1, H9(ii)(iii) a H10(i)(ii)(iii).<br>27. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi caffael y safle ac mae cais cynllunio yn cael ei symud ymlaen. Clywsom y gellid rhoi caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2026, gan wneud addasrwydd a chadernid y dyraniad yn y CDLIN yn ddadleuol.<br>28. Mae Lawnt Pengam wedi'i ddyrannu ar gyfer 80 o leiniau, a byddai 59 ohonynt yn newydd. Bydd y diffyg o 54 o leiniau yn erbyn yr angen a nodwyd yn cynyddu os collir ardal ddatblygadwy i liniaru niwed i'r SoBCN a chreu amodau byw gweddus.<br>29. I fod yn gadarn, rhaid i'r CDLIN<br>• wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer 54 o leiniau parhaol,<br>• cydymffurfio â'r Deddfau Tai a Chydraddoldeb os yw llety yn Lawnt Pengam dros dro,<br>• gosod strategaeth glir a chyflawnadwy ar gyfer darpariaeth barhaol os yw llety yn Lawnt Pengam dros dro,<br>• gwneud darpariaeth ar gyfer 10 llain dramwy,<br>• Diwygio'r dangosydd monitro ar gyfer Polisi H11;<br>30. Gofynnir am ymateb i'r materion hyn erbyn 30 Medi 2026. |

| Monitoring Reference | LDP Policies | Indicator | Target | Trigger | Source Data |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.4 | H11 | Completion of sites to meet the identified need in the GTAA for 59 permanent and 10 transit pitches | Completion of 73 pitches to meet immediate need by 31/12/27<br><br>Completion of 113 pitches to meet overall need by 31/12/30 | Failure to deliver 73 pitches to meet immediate need by 31/12/27<br><br>Failure to deliver 113 pitches to meet overall need by 31/12/30 | CCC Planning Policy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Completion of 10 transit pitches by 31/12/27 | Failure to deliver 10 transit pitches by 31/12/27 | |

| Cyfeirnod Monitro | Polisïau y CDLl | Dangosydd | Targed | Sbardun | Ffynhonnell y Data |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.4 | H11 | Cwblhau safleoedd i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y ALISTh ar gyfer 59 o leiniau parhaol a 10 tramwy | Cwblhau 73 o leiniau i ddiwallu angen uniongyrchol erbyn 31/12/27<br>Cwblhau 113 o leiniau i ddiwallu angen uniongyrchol erbyn 31/12/30<br>Cwblhau 10 llain dramwy erbyn 31/12/27 | Methu â chyflawni 73 o leiniau i ddiwallu'r angen uniongyrchol erbyn 31/12/27<br>Methu â chyflawni 113 o leiniau i ddiwallu'r angen uniongyrchol erbyn 31/12/30<br>Methu â chyflawni 10 llain dramwy erbyn 31/12/27 | Polisi Cynllunio CDC |